# Adroddiad Blynyddol Cynghorwyr CBSP

**Y Cynghorydd Norah Clarke** **Ward: Notais Porthcawl**

**Plaid: Annibynnol**

**(Y Gynghrair Ddemocrataidd)**

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy mhrif weithgareddau yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben yn **2024**. Mae'n cael ei ddarparu er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall. Y farn a fynegir yn yr adroddiad hwn yw barn y Cynghorydd ac nid ydyw o reidrwydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr..

**<u>Y Rôl a Chyfrifoldebau</u>**

Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o rolau yn y Cyngor eleni gan gynnwys cael fy mhenodi'n aelod o'r pwyllgorau canlynol:

Pwyllgor Trosolwg a Chraffu 3
Pwyllgor Rheoli Datblygiad
Apeliadau
Datblygu Aelodau
Cyngor

Rwyf wedi cefnogi trigolion fy ward ar amrywiaeth o faterion, yn ychwanegol at fynd i'r afael yn anffurfiol â nifer o faterion eraill yr ydych wedi gofyn i mi eich helpu i'w datrys.

Rwyf wedi mynychu nifer o Weithgareddau Datblygu Aelodau (sesiynau hyfforddi).

Rwyf hefyd wedi helpu cydweithwyr gyda chyngor ar lu o faterion gwahanol.

Rwyf wedi cofnodi nifer o hysbysiadau a gwybodaeth ddefnyddiol a anfonwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar fy nhudalen Facebook a hefyd eu rhannu ar dudalennau eraill i breswylwyr.

**<u>Gweithgareddau Etholaethol</u>**

Rwy'n falch fy mod wedi helpu nifer o breswylwyr ar amrywiaeth o faterion.

Mae rhai ohonynt wedi'u rhestru isod:-

Nifer fawr o dyllau ar y ffyrdd
Nifer o faterion gwastraff/ailgylchu
Problemau Treth Gyngor
Draeniau wedi'u blocio/llifogydd ar ochr y ffordd
Pafin anwastad yn achosi i bobl faglu a chwympo
Materion goleuadau a thipio anghyfreithlon.
Gordyfiant mewn ardaloedd/ar lwybrau cerdded.

Materion cynllunio.
Materion llwybrau bysus.
Materion Bathodynnau i Bobl Anabl

**Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Dros un gŵyl y banc derbyniais adroddiad o alarch a oedd wedi marw. Roedd preswylydd wedi symud yr alarch i ffwrdd o anifeiliaid a phlant. Yna gofynnais i'r Cyngor fynd i nôl yr alarch gan ei bod yn rhywogaeth a warchodir ac roedd angen adrodd amdani.

Tra i ffwrdd ar wyliau yn yr Alban ym mis Mehefin 2023 cysylltodd preswylydd â mi yn gofyn am help ynghylch mater heddlu, yr oeddwn, yn ffodus, wedi gallu helpu i'w ddatrys.

**Gweithgareddau/Materion Eraill**

Rwy'n wirfoddolwr o fewn cymuned Porthcawl.

Rwy'n ysgrifennydd Grŵp Codi Arian a Digwyddiadau RNLI Porthcawl.

Rwy'n gwirfoddoli fel codwr arian ac yn derbyn cŵn bach tywys ar ran Cŵn Tywys Cymru.

Rwyf hefyd yn cefnogi cyn-filwyr Porthcawl.

**Y Cynghorydd N. Clarke** **Dyddiad: 31 Mai 2024**